# Y 3 'C' o ran sbwriel a thipio anghyfreithlon

**Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn amlygu mor bwysig yw rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar yr effaith y gall sbwriel a thipio anghyfreithlon ei chael ar yr amgylchedd, ar gymunedau ac ar yr economi.**



Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn ei holl waith. Golyga hyn ofalu am aer, tir, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella lles Cymru, a darparu gwell dyfodol i bawb.

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd y dysgwyr yn gallu:**

- **Cyflwyno gwybodaeth am yr hyn sy'n creu sbwriel a thipio anghyfreithlon, y canlyniadau a/neu ffyrdd o gyfyngu ar hyn.**
- **Trafod y pethau amrywiol sy'n creu sbwriel a thipio anghyfreithlon, y canlyniadau amrywiol, a'r hyn y gellir ei wneud i gyfyngu arnynt.**

## Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd:

45 munud

## Maes cwricwlwm

ADCDF
Daearyddiaeth

## Lleoliad

Unrhyw amgylchedd awyr agored neu gellir ei addasu i'r tu mewn

**Email:** addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cysylltiadau â’r cwricwlwm

### CA2 ADCDF
**Treuliant a gwastraff**

Bod gwastraff yn gallu achosi llygredd
O ble ddaw’r pethau y mae pobl yn eu defnyddio ac i ble maen nhw’n mynd

### CA2
**Astudio Daearyddiaeth**

Byw yn fy myd: gofalu am leoedd ac amgylcheddau a phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang

### CA3 ADCDF
**Treuliant a gwastraff**

Datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb am ddatblygu cynaliadwy
Gwerthfawrogi’r camau sy’n ofynnol i leihau eu hôl troed ecolegol eu hunain a lleihau gwastraff

### CA3
**Astudio Daearyddiaeth**

Dinasyddion y dyfodol: materion byw’n gynaliadwy yng Nghymru ac yn y byd ehangach, a chyfrifoldebau bod yn ddinesydd byd-eang

## Cyfarpar ac adnoddau

- **Cardiau adnodd: y 3 ‘C’**
- **Taflen wybodaeth: y 3 ‘C’**

## Beth i’w wneud

- Y *cardiau Adnodd: 3C’s* Rhennir y 3 ‘C’ yn dair set: **sef creu, canlyniadau a chyfyngu**
  - Mae pob set yn cynnwys:
    - -1 cerdyn creu, canlyniad neu gyfyngu
    - -3 cerdyn gwybodaeth cysylltiedig
    - -1 cerdyn herio
- Rhannwch y dysgwyr yn dri grŵp a dyrannu un o’r cardiau canlynol i bob grŵp:
  - **- Creu sbwriel a thipio anghyfreithlon**
  - **- Canlyniadau sbwriel a thipio anghyfreithlon**
  - **- Cyfyngu ar sbwriel a thipio anghyfreithlon**
- Rhaid i bob grŵp gasglu’r tri cherdyn gwybodaeth sy’n gysylltiedig â’r pwnc a ddyrannwyd iddo
- Gellir gwasgaru’r cardiau ar y llawr, eu cuddio mewn ardal benodol neu eu dosbarthu ar hyd llwybr. Rhaid i’r dysgwyr sicrhau bod y cardiau llun / gwybodaeth a gasglant yn cyd-fynd â’u cerdyn.
- Sicrhewch fod gan bob grŵp y cardiau cywir cyn symud ymlaen i gwblhau’r ‘cerdyn herio’.
- Cerdyn herio: Yr her wedyn yw defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol – mwd, dail, cerrig, brigau, mwsogl ac ati, i greu portread / model i gynrychioli pwnc y grŵp, h.y. dangos rhai o’r pethau sy’n creu sbwriel a thipio anghyfreithlon, y canlyniadau neu ffyrdd o gyfyngu arnynt. Anogwch y dysgwyr i fod yn greadigol i sicrhau bod y portread / model yn adlewyrchu eu cardiau. Un opsiwn arall fyddai llunio poster i ddarlunio eu pwnc.
- Ar ôl cwblhau’r eitemau, gwahoddwch bob grŵp i gyflwyno ei fodel, gan egluro’r hyn y mae’n ei arddangos am y pwnc. Mae’n ddoeth gadael i’r grŵp canlyniadau fynd yn gyntaf ac yna’r grŵp creu ac yn olaf y grŵp cyfyngu ar sbwriel a thipio anghyfreithlon.

**Awgrymu cwestiynau allweddol**

- Beth yw tipio anghyfreithlon?
- Yn eich barn chi, pam mae pobl yn gollwng sbwriel ac yn tipio gwastraff yn anghyfreithlon?
- Beth allem ei wneud i gyfyngu ar sbwriel?

## Addasu at wahanol anghenion/galluoedd

Llai galluog:

- Gwneud i bob un o'r 3 set ddilyn cod lliw, fel ei bod yn haws grwpio'r cardiau gyda'i gilydd.
- Creu poster yn lle gwneud model 3D.
- Arweinydd y grŵp i egluro pob cerdyn gwybodaeth cysylltiedig.
- Lleihau nifer y cardiau gwybodaeth cysylltiedig.

Mwy galluog:

- Dysgwyr i ganfod a rhannu cardiau yn dri grŵp heb gymorth oedolyn.
- Gallai'r grwpiau arddangos y llif rhwng cerdyn creu, canlyniad a chyfyngu dethol ac egluro sut maent yn gysylltiedig, drwy fodel, llun, neu bortread byr drwy chwarae rôl.
- Trafod atebion a chamau posibl y gallai unigolion / grwpiau eu cymryd.

## Gweithgaredd dilynol/estyniad

- Rhowch gynnig ar weithgareddau gwastraff eraill:
  - Lloffion papur newydd
  - Dal tipiwr anghyfreithlon
  - A wyddech chi...?
  - Sbwriel hirhoedlog

## Gwybodaeth ychwanegol

Gweler *Taflen Wybodaeth: y 3 'C'*



Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras neu mewn iaith arall, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk **0300 065 3000**

**www.cyfoethnaturiol.cymru**

FSC® www.fsc.org FSC® C-115912
Arwydd o Goedwigaeth Gyfrifol
The mark of responsible forestry
Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®
Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®
FSC www.fsc.org RECYCLED Paper made from recycled material FSC® C008921
Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%
Printed on Revive offset 100% recycled paper
NRWRC000